Cynhadledd Datblygiadau mewn Rheolaeth ac Arloesi (AMI) *2025*

21ain a 22ain o Fai 2025

Ystafell Lletygarwch, Ysgol Reolaeth Caerdydd, Campws Llandaf, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cliciwch yma i gofrestru

Professor Anna Whicher

Anna yw Cyfarwyddwr Cyswllt Ymchwil ac Athro Dylunio a Pholisi yn PDR – Canolfan Ryngwladol Dylunio ac Ymchwil ym Met Caerdydd.

Mae Anna yn angerddol am yr hyn y gall dylunio ei gyflawni i fusnesau, llywodraethau a chymunedau. Mae Anna wedi cefnogi llywodraethau ledled y byd i integreiddio dylunio i'w ffyrdd o weithio, datblygu cynlluniau gweithredu dylunio, lansio labordai arloesi, ymgorffori dylunio i raglenni cymorth busnes a thrwytho egwyddorion dylunio cylchol mewn strategaethau.

Mae enghreifftiau o'i gwaith yn cynnwys cefnogi datblygiad y Polisi Dylunio Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Ynysoedd y Philipinau, cyflawni trawsnewidiad trwy ddylunio o fewn Banc Canolog Ewrop ac adnewyddu modelau gweithredu labordy'r llywodraeth yn y DU a Latfia.

Stephen Broadhurst

Stephen Broadhurst yw'r Rheolwr Gyfarwyddwr Star Linen UK, Corff B, wedi'i leoli yn Ystrad Mynach, De Cymru. Gyda chefndir amrywiol sy'n cwmpasu gwasanaeth milwrol yn y RAF, gwerthu a rheoli tecstilau. Yn dilyn ei wasanaeth milwrol, cychwynnodd Stephen ar yrfa amrywiol yn y sector masnachol, gan ddal sawl swydd adweinyddol. Dechreuodd fel Rheolwr Rhanbarthol yn Wicksteed Leisure yn Northampton. Aeth Stephen ymlaen wedyn i fod yn Gyfarwyddwr Gwerthiant yn Jewson, ac yna'n Bennaeth Masnachol yn Frigoscandia, gan hogi ei graffter busnes ymhellach. Pan aeth i weithio yn niwydiant tecstilau, daeth trobwynt yn ei yrfa, gan ymuno â Sunlight (Ellis, erbyn hyn). Yn ystod ei ugain mlynedd o weithio ym myd tecstilau, treuliodd bum mlynedd fel Rheolwr Gyfarwyddwr Mitre Linen, sydd wedi'i leoli ym Merthyr Tudful. O dan ei arweinyddiaeth, cyflawnodd Mitre Linen dwf sylweddol, gan arwain at ei werthiant llwyddiannus i Nisbets. Gan adeiladu ar y llwyddiannau hyn, arweiniodd arbenigedd Stephen i Star Linen yn Philadelphia, UDA. Roedd ei brofiad rhyngwladol yn amhrisiadwy pan ddychwelodd i'r DU i sefydlu gweithrediadau Star Linen yma ar ddiwedd 2016, gan nodi dechrau ei rôl bresennol fel Rheolwr Gyfarwyddwr Star Linen UK.

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Ysgol Reoli Caerdydd